# Ysgol Morfa Nefyn

‘Dringa’ i fyny, dringa i’r sêr’

Gwneud fy ngorau glas!

Dyfalbarhau

Mynd am yr her!

# Ein gweledigaeth: “Dringa’ i fyny, dringa’ i’r sêr!”

Yn Ysgol Morfa Nefyn, rydym yn annog a chefnogi bob dysgwr i ddringo; dringo i’r sêr! Yn ystod eu cyfnod yma yn yr ysgol, bydd bob plentyn yn llwyddo i gyrraedd eu llawn potensial.

Drwy ein cwricwlwm bywiog, byddwn yn cynnwys plant mewn profiadau dysgu pwrpasol a chyffrous gan roi iddynt y sgiliau a’r wybodaeth sydd eu hangen arnynt ar gyfer y dyfodol. Drwy weithgareddau creadigol a chyfoethog byddwn yn datblygu pob plentyn i fod yn ddysgwyr annibynnol a mentrus; yn gyfranwyr sy’n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes; yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus ac yn bwysig iawn i ni yn unigolion iach ac hyderus. Bydd datblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol hefyd yn greiddiol i’r holl weithgareddau yma. Bydd yr iaith, eu milltir sgwâr a diwylliant Cymreig yn parhau i dreiddio i bob rhan o fywyd ein plant a’n cymuned. Mae gennym ddisgwyliadau uchel o bob plentyn ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod pob plentyn yn cyflawni eu potensial llawn gyda dyheadau uchel.

Gyda’n hysgolion lleol a thu hwnt byddwn yn dathlu bywyd, diwylliant, a hanes Penrhyn Llŷn gan ennyn ymchwilio i hanes a dyfodol ein cymunedau ffermio a morwrol a’r newidiadau sydd wedi digwydd dros amser gan gychwyn wrth ein traed ym mhentref Morfa Nefyn ac arfordir Porthdinllaen. Byddwn yn ennyn chwilfrydedd mewn datblygiadau sydd yn gwarchod a bygwth ein hamgylchedd ac yn hyrwyddo cymunedau hyfyw lleol i’r dyfodol. Byddwn hefyd yn codi gorwelion ein plant i amgylchedd, hanes, diwylliant, cydberthnasau ac amrywiaeth o fewn Cymru ein gwlad, a thu hwnt.

**Drwy wireddu ein gweledigaeth byddwn yn Ysgol Morfa Nefyn yn sicrhau fod bob plentyn yn dringo i fyny, dringo i’r sêr.**

# Dringa’ i fyny, dringa’ i’r sêr!




























| Ein gwerthoedd | Ein hymddygiad |
|---|---|
| **Hapusrwydd a mwynhad** | Mae hapusrwydd yn bwysig iawn i ni yma yn ysgol Morfa ac rydym yn sicrhau fod bob plentyn a staff yn hapus yn dod i'r ysgol.<br>Mae ethos pob dosbarth a'r profiadau dysgu yn cael eu cynllunio yn ofalus iawn i ysbrydoli ein dysgwyr. Rydym yn sicrhau bod dysgwyr yn rhan o'r dysgu a gyda llais ymhob agwedd o'r ysgol fel eu bod yn teimlo perchnogaeth, yn mwynhau profiadau ac yn datblygu cymhelliant wrth ddysgu. |
| **Lles a Gofal** | Rydym yn dangos empathi, gofal a chonsyrn am les pawb. Rydym yn gwrando ac yn gweithredu i sicrhau fod pawb yn yr ysgol yn teimlo'n ddiogel ac yn cynllunio gweithgareddau sydd yn datblygu ymwybyddiaeth y dysgwyr am les eu hunain ac eraill. |
| **Hyder** | Drwy weithgareddau llafaredd a chwarae rôl, rydym yn blaenoriaethu hyder unigolion o'r cychwyn cyntaf er mwyn sicrhau eu bod yn hyderus i fynegi eu hunain a'u teimladau. Mae hi'n bwysig fod bob plentyn yn falch o'i hunain ac yn cael eu canmol yn rheolaidd. |
| **Annibyniaeth** | Yn dilyn dysgu sgiliau amrywiol newydd i'r dysgwyr, rydym yn cynllunio gweithgareddau sydd yn rhoi cyfle iddynt atgyfnerthu y sgiliau hynny yn rheolaidd drwy brofiadau real er mwyn datblygu eu dealltwriaeth a'u hyder i ddefnyddio'r sgiliau yn annibynnol. Mae annog a datblygu annibyniaeth yn cael blaenoriaeth ymhob agwedd yn yr ysgol. |
| **Mentro** | Rydym yn cefnogi ein gilydd yn yr ysgol; yn ddysgwyr a staff, i ddatblygu meddylfryd o dwf. Mae defnyddio a thrafod yr eirfa meddylfryd o dwf sydd yn weledol ar yr ysgol 'dringo i'r sêr' yn ddyddiol yn sicrhau ein bod yn barod i fentro'n hyderus, i groesawu her ac i ddyfalbarhau i gyrraedd ein nod. |
| **Cefnogi a Chydweithio** | O fewn yr ysgol a'r dosbarthiadau, mae staff a dysgwyr yn cydweithio ac yn cefnogi ei gilydd i ddatblygu a dysgu'n barhaus. Mae hyn yn sicrhau fod bob plentyn yn cyrraedd ei lawn botensial. |
| **Cymuned a Chymreictod** | Rydym yn chwarae rhan llawn ym mywyd ein cymuned ac yn cynllunio i sicrhau fod y dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth a pharch at eu cymyned, gan ddathlu a gwarchod eu cynefin. Rydym yn dathlu iaith a diwylliant Cymru ymhob rhan o'n gwaith. |

## 4 Diben Cwricwlwm i Gymru ydy craidd a chalon Cwricwlwm Ysgol Morfa Nefyn

Maent yn sail i bob agwedd o'n dylunio cwricwlwm, ein cynllunio a'n addysgu. Mae ein gweledigaeth a'n gwerthoedd fel ysgol yn cefnogi'r 4 diben yn llawn. Isod, mae'r 4 diben i'w gweld gyda eglurad o bob agwedd yn ngair y plant. Bydd ein profiadau dysgu a'n dulliau addysgu yn anelu at wireddu'r isod bob amser a mae'r plant wrth eu bodd yn eu defnyddio i gyd-gynllunio gwersi.

# Dysgwyr uchelgeisiol galluog sydd...



| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| yn gosod safonau uchel iddyn nhw eu hunain ac yn chwilio am heriau ac yn eu mwynhau | Herio fy hun! | | | |
| yn datblygu corff o wybodaeth ac sydd â'r sgiliau sydd eu hangen i gysylltu'r wybodaeth honno a'i chymhwyso at wahanol gyd-destunau | Defnyddio fy sgiliau mewn gwahanol weithgareddau. | | | |
| yn ymholgar ac yn mwynhau datrys problemau | Gofyn cwestiynau a datrys problemau | | | |
| yn gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau, drwy'r Gymraeg a'r Saesneg | Defnyddio iaith ar lafar ac ysgrifenedig mewn ffyrdd gwahanol. | | | |
| yn gallu egluro'r syniadau a chysyniadau y maent yn dysgu amdanynt | Egluro beth ydw i wedi ei ddysgu. | | | |
| yn gallu defnyddio rhif yn effeithiol mewn gwahanol gyd-destunau | Defnyddio rhif mewn gwahanol weithgareddau. | | | |
| yn deall sut i ddehongli data a chymhwyso cysyniadau mathemategol | Dadansoddi data. | | | |
| yn defnyddio technolegau digidol yn greadigol i gyfathrebu a dod o hyd i wybodaeth a'i dadansoddi | Defnyddio technoleg i gyfathrebu a chwilio am wybodaeth. | | | |
| yn ymchwilio ac yn gwerthuso eu canfyddiadau'n feirniadol | Ymchwilio ac yn barod i drafod. | | | |

ac yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.

# Unigolion iach, hyderus sydd…



| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| â gwerthoedd sicr ac sy'n sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol. | Parchu eraill a dysgu bod pawb yn wahanol. | | | |
| yn meithrin eu lles meddyliol ac emosiynol drwy ddatblygu hyder, cadernid ac empathi. | Credu yn fi fy hun! | | | |
| yn cymhwyso gwybodaeth am effaith deiet ac ymarfer ar iechyd corfforol a meddyliol yn eu bywyd pob dydd | Dysgu sut i gadw'n iach. | | | |
| yn gwybod sut i ddod o hyd i'r wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen i gadw'n ddiogel ac iach | Gwybod ble i chwilio am gymorth. | | | |
| yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol | Ymarfer corff. | | | |
| yn gwneud penderfyniadau pwyllog ynghylch eu ffordd o fyw ac yn rheoli risg | Cadw'n ddiogel. | | | |
| â'r hyder sydd ei angen i gymryd rhan mewn perfformiadau | Cyfle i berfformio yn hyderus. | | | |
| yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol wedi'u seilio ar ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd | Dysgu beth yw ffrind da. | | | |
| yn wynebu heriau ac yn eu trechu | Mentro! | | | |
| â'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ddelio â'u bywyd pob dydd mor annibynnol ag y gallant | Edrych ar ôl fy hun. | | | |

ac yn barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

YSGOL MORFA

# Unigolion mentrus, creadigol sydd…



| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| yn cysylltu ac yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau i greu syniadau a chynhyrchion | Cynnig syniadau. | | | |
| yn meddwl yn greadigol er mwyn ail-lunio a datrys problemau | Bod yn ddychmygus. | | | |
| yn adnabod cyfleoedd ac yn manteisio arnynt. | Mynd am bob cyfle. | | | |
| yn mentro'n bwyllog | Mentro! | | | |
| yn arwain ac yn chwarae rolau gwahanol mewn timau'n effeithiol ac yn gyfrifol. | Chwarae rôl mewn tîm. | | | |
| yn mynegi syniadau ac emosiynau drwy wahanol gyfryngau | Rhannu syniadau a theimladau drwy berfformio. | | | |
| yn rhoi o'u hegni a'u sgiliau fel y bydd pobl eraill yn elwa. | Gwneud fy ngorau glas - ymwybodol o blesio cynulleidfa. | | | |

ac yn barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith.

# Dinasyddion egwyddorol, gwybodus sydd…



| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| yn canfod, yn gwerthuso ac yn defnyddio tystiolaeth wrth ffurfio barn. | Dweud fy marn. | | | |
| yn trafod materion cyfoes ar sail eu gwybodaeth a'u gwerthoedd. | Beth sy'n digwydd yn y Byd. | | | |
| yn deall ac yn arfer eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol a democrataidd. | Mae gen i hawliau. | | | |
| yn deall ac yn ystyried effaith eu gweithredoedd wrth ddewis a gweithredu. | Meddwl cyn gwneud. | | | |
| yn wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd yn awr ac yn y gorffennol. | Fy milltir sgwar yn y byd mawr; ddoe a heddiw. | | | |
| yn parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelod o gymdeithas amrywiol | Parchu fod pawb yn wahanol. | | | |
| yn dangos eu hymrwymiad i sicrhau cynaliadwyedd y blaned ac yn barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd. | Edrych ar ôl y byd. | | | |

ac yn barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd.

## Addysgu

Mae **addysgu ardderchog** yn hanfodol os ydym am wireddu'r 4 diben, ein gweledigaeth fel ysgol a gofynion Fframwaith y Cwricwlwm. Mae sicrhau amgylchedd dysgu hapus o'r radd flaenaf yn  greiddiol i ni yn Ysgol Morfa, i ddysgwyr ac i ymarferwyr.  Mae cysondeb ymhob dosbarth ar draws yr ysgol yn hollbwysig i ni er mwyn sicrhau sylfaen gadarn er mwyn datblygu dysgwyr annibynnol, creadigol a mentrus sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.

Rydym yn ystyried, yn rhannu ac yn datblygu ein dulliau addysgu'n barhaus, a hynny'n seiliedig ar  ein dealltwriaeth o'r  **12 egwyddor addysgegol** a nodir yn Fframwaith y Cwricwlwm ac ar y dulliau yr ydym ni'n eu canfod yn llwyddiannus yn yr ysgol hon.



| Y 12 Egwyddor Addysgegol | | | |
|---|---|---|---|
| 1. Canolbwyntio ar wireddu'r 4 diben. | 2. Herio dysgwyr a nodi pwysigrwydd ymdrechu'n barhaus.<br>Cyfleu disgwyliadau uchel ond cyraeddadwy. | 3. Defnyddio cymysgedd o ddulliau addysgu. | 4. Datblygu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a'r gallu i feddwl yn feirniadol. |
| 5. Adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol.<br>Ennyn diddordeb. | 6.Creu cyd-destunau dilys. | 7. Gweithredu egwyddorion asesu ffurfiannol. | 8. Ymestyn oddi mewn ac ar draws y Meysydd Dysgu. |
| 9. Atgyfnerthu ac ymarfer sgiliau trawsgwricwlaidd - llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. | 10. Datblygu dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu eu hunain a datblygu fel dysgwyr annibynnol. | 11. Hybu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a chydberthnasau cadarnhaol. | 12. Hybu cydweithio. |

Wrth esblygu Cwricwlwm i Gymru yn Ysgol Morfa,  mae arbrofi ac arloesi'n hyderus fel ymarferwyr yn bwysig iawn ni a byddwn  yn cydweithio'n agos o fewn yr ysgol ac ar draws y clwstwr er mwyn sicrhau profiadau dysgu a'r addysgu gorau y gallwn ei gynnig i'n dysgwyr.

Mae'r ysgol yn sefydliad sy'n dysgu. Golyga hyn ein bod yn ymchwilio ac yn dysgu am addysgu effeithiol yn barhaus ac yn rhoi bri ar ddysgu proffesiynol ac ymarfer wedi ei selio ar ymchwil er mwyn datblygu a gwella ein sgiliau addysgu.

## Addysgu – strategaethau sydd wedi gwreiddio

Mae llawer o strategaethau amrywiol wedi gwreiddio yn y dosbarthiadau i gefnogi'r addysgu. Drwy eu gweithredu'n llawn a chyson drwy'r ysgol rydym yn cyflawni nifer o agweddau o'r 4 diben, y sgiliau cyfannol a'r 12 egwyddor addysgegol. Mae'r isod yn amlinellu sut mae'r strategaethau hyn yn cyfrannu at eu gwireddu.

| Strategaeth/ egwyddor asesu ffurfiannol | 4 diben | Sgilau cyfannol | 12 egwyddor addysgegol. |
|---|---|---|---|
| **Geirfa Meddylfryd o Dwf**<br>Cyflwyno, deall a thrafod geirfa meddylfryd o Dwf yn rheolaidd i sicrhau fod y dysgwyr yn .... dathlu camgymeriadau a chroesawu her | Dysgwyr uchelgeisiol, galluog<br>Unigolion iach, hyderus<br>Cyfranwyr mentrus, creadigol | Creadigrwydd ac arloesi<br>Effeithiolrwydd Personol<br>Cynllunio a Threfnu<br>Meddwl yn feirniadol a datrys problemau | 1,2,3 7, 8, 10,11, 12 |
| **Llais y plentyn/ rhieni a'r Wal gynllunio**<br>Cynnwys dysgwyr yn y cynllunio | Dysgwyr uchelgeisiol, galluog<br>Unigolion iach, hyderus<br>Cyfranwyr mentrus, creadigol | Creadigrwydd ac arloesi<br>Effeithiolrwydd Personol<br>Cynllunio a Threfnu<br>Meddwl yn feirniadol a datrys problemau | 1,2,3, 6, 7, 8, 9, 10,11, 12 |
| Partneriaid trafod,<br>*gyda'r ymarferwyr yn arsylwi ac yn asesu dealltwriaeth a gwybodaeth* | Dysgwyr uchelgeisiol, galluog<br>Unigolion iach, hyderus<br>Cyfranwyr mentrus, creadigol | Effeithiolrwydd Personol<br>Cynllunio a Threfnu<br>Meddwl yn feirniadol a datrys problemau | 1,2,3,4 7, 10,11, 12 |
| **Dewi Dysgu a Lleucu llwyddiant**<br>Rhannu Deilliannau Dysgu a Meini Prawf Llwyddiant | Dysgwyr uchelgeisiol, galluog | Effeithiolrwydd Personol<br>Cynllunio a Threfnu | 2,3,4,5,6, 7,10, 11,12 |
| **Targedau personol ac adborth**<br>Trafodaeth Llafar ac Ysgrifenedig rheolaidd i drafod cyrhaeddiad a cham ymlaen gyda bob unigolyn | Dysgwyr uchelgeisiol, galluog<br>Unigolion iach, hyderus<br>Cyfranwyr mentrus, creadigol | Effeithiolrwydd Personol<br>Cynllunio a Threfnu<br>Meddwl yn feirniadol a datrys problemau | 1,2,3,4, 7, 10,11, 12 |
| **Gwahaniaethu a gosod her**<br>Tasgau yn cael eu gosod fel tair haen wedi eu lliwio mewn ardaloedd dysgu.<br>Heriau yn cael eu gosod ar ddiwedd gwaith e.e. mathemateg | Dysgwyr uchelgeisiol, galluog<br>Unigolion iach, hyderus | Effeithiolrwydd Personol<br>Cynllunio a Threfnu<br>Meddwl yn feirniadol a datrys problemau | 1,2,3,5,6, 7,9, 10 11, 12 |

## Cynllunio

Wrth gynllunio yn Ysgol Morfa, rhoddir pwyslais ar gynnig **profiadau dysgu cyfoethog, eang a dwfn** o ansawdd uchel i'n dysgwyr sy'n addas ar gyfer eu hoedran a'u datblygiad.

Golyga hyn roi digon o amser i ddysgwyr feithrin, ymarfer a chymhwyso gwybodaeth a sgiliau er mwyn gwreiddio eu dysgu. Drwy gynllunio **themâu trawsgwricwlaidd**, rydym yn sicrhau fod y dysgwyr yn atgyfnerthu'r sgiliau ar draws y cwricwlwm yn hyderus. Mae ein cynlluniau yn gwahaniaethu i roi cyfle i bob unigolyn ddysgu sgiliau newydd, llwyddo a dyfalbarhau er mwyn mynd am her. Rydym yn datblygu agwedd iach i sicrhau fod bob dysgwr yn mwynhau ac yn teimlo'n falch o'i hunain.

Rydym hefyd yn cynllunio i sicrhau bod ein profiadau dysgu a'n haddysgu yn datblygu'r **sgiliau cyfannol** isod sydd eu hangen ar ein dysgwyr i gyflawni'r 4 diben**.** Mae hyn yn gosod seiliau cadarn ar gyfer camau nesaf eu dysgu ac yn sicrhau unigolion hyderus, brwdfrydig sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.

| | |
|---|---|
| **Creadigrwydd ac arloesi** | • Ymholi, archwilio, bod yn chwilfrydig, creu a rhannu syniadau<br>• Cysylltu profiadau, gwybodaeth a sgiliau |
| **Meddwl yn feirniadol a datrys problemau** | • Cwestiynu a gwerthuso gwybodaeth a sefyllfaoedd<br>• Adnabod problemau a chynnig gwahanol ddatrysiadau<br>• Gwneud penderfyniadau yn wrthrychol |
| **Effeithiolrwydd personol** | • Datblygu deallusrwydd emosiynol, hyder ac annibyniaeth<br>• Gwerthuso a thrafod eu dysgu presennol a'u camau nesaf<br>• Gweld gwerth a dathlu camgymeriadau<br>• Trafod ac ystyried eu barn a'u gwerthoedd a'u goblygiadau egwyddorol, cymdeithasol, diwylliannol |
| **Cynllunio a threfnu** | • Gosod nodau ar gyfer eu dysgu a thrafod a myfyrio ar eu cynnydd |









## Elfennau gorfodol y Cwricwlwm

Yma yn ysgol Morfa Nefyn rydym yn rhoi sylw rheolaidd i elfennau gorfodol y cwricwlwm wrth gynllunio:

| | |
|---|---|
| **Addysg Cydberthynas a rhywioldeb** | Rydym yn cynllunio Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb er mwyn cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r gwerthoedd i ddeall sut mae cydberthnasau a rhywioldeb yn llywio eu bywydau eu hunain a bywydau pobl eraill. Caiff dysgwyr eu paratoi a'u grymuso i ofyn am gymorth ar faterion sy'n ymwneud ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ac i eirioli drostyn nhw eu hunain. |
| **Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg** | Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn rhan statudol o Gwricwlwm y Dyniaethau ac yn seiliedig ar gyfres o gydsyniadau a syniadau mawr. Mae ein cwricwlwm yn darparu ystod o ddulliau disgybliaethol i gefnogi dysgwyr wrth iddynt fynd i'r afael yn feirniadol ag ystod eang o gredoau athronyddol crefyddol ac anghrefyddol. Dyluniwyd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ein hysgol i roi sylw i'r maes llafur cytunedig. |
| **Cymraeg** | Cyflwynir addysg yn yr ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae disgyblion yn cael eu trochi yn yr iaith Gymraeg a'i diwylliant yn y blynyddoedd cynnar. |
| **Saesneg** | Addysgir Saesneg ym mlwyddyn 3, pan mae'r disgyblion yn 7 oed ac wedi derbyn Sylfaen gadarn yn y Gymraeg. |

## Cynllunio i ddysgu sgiliau

Defnyddir cyfuniad o ddulliau o gynllunio'r cwricwlwm yn yr ysgol hon yn unol â'r gofyn yn unol ag oedran y dysgwyr a chyd destun y dysgu.
Bydd elfennau o gynllunio ar gyfer addysgu uniongyrchol (mathemateg a llythrennedd), disgyblaethol ac amlddisgyblaethol yn digwydd er mwyn dysgu ac ymarfer sgiliau penodol e.e. *dysgu sgil mathemateg neu ffoneg benodol.*

## Cynllunio thema i ddatblygu sgiliau trawsgwricwlaidd

Defnyddir elfennau rhyngddisgyblaethol ac integredig er mwyn ymarfer sgiliau ymhellach a'u cymhwyso mewn gwahanol gyd- destunau trawsgwricwlaidd o fewn thema penodol E.e. *tynnu elfennau o Fathemateg, Iaith, Cymhwysedd Digidol a Dyniaethau at ei gilydd o fewn thema trawsgwricwlaidd.*

Mae llais y plentyn, eu teuluoedd a'r gymuned yn bwysig i ni ac oherwydd hyn, mae hyblygrwydd yn ein cynllunio i ddilyn trywydd y dysgwyr neu os oes digwyddiad lleol neu Fyd eang yn codi.  Mae hyn yn sicrhau fod ein profiadau dysgu yn berthnasol, diddorol ac amserol yn ogystal a chodi cymhelliant a mwynhad y dysgwyr.

## Mae'r isod yn elfennau holl bwysig y byddwn yn ymgorffori'n barhaus yn ein cynlluniau:

**Iechyd a Lles**
Credwn yn  gryf yn yr ysgol hon bod sicrhau a chynnal parodrwydd dysgwyr i ddysgu yn greiddiol. I'r perwyl hwn croesawn y pwyslais cyfartal ar bob Maes Dysgu a Phrofiad a'u bod  yn cynnwys Iechyd a Lles.

Mae datblygu Meddylfryd o Dwf yn bwysig iawn i ni ac yn sicrhau fod dysgwyr yn falch o'u hunain, yn uchelgeisiol ac yn fentrus.

**Llais y plentyn a'u teuluoedd**
Mae cydweithio gyda rhieni/ gofalwyr a'r gymuned yn bwysig iawn i ni yma yn Ysgol Morfa.

Mae wal gynllunio yn y ddau ddosbarth sydd yn cael ei defnyddio i gyd-gynllunio thema gyda'r plant. Bydd athrawon yn defnyddio syniadau rhieni yn rheolaidd i gynllunio ac yn sicrhau cyswllt gyda'r gymuned lle bo'n briodol.

**Sgiliau Trawsgwricwlaidd – ymarfer ac atgyfnerthu yn annibynnol**
Mae Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol yn gyfrifoldeb statudol ar draws pob Maes Dysgu a Phrofiad. Mae'r sgiliau hyn yn cael eu cynllunio yn ofalus o fewn thema'r dosbarthiadau i roi cyfle i ymarfer ac atgyfnerthu o fewn gweithgareddau bywyd go iawn a thrawsgwricwlaidd.

Rhoddir hyn gyfle i'r dysgwyr gymhwyso sgiliau fel eu bod yn gwreiddio yn ogystal a datblygu eu hyder a'u hannibyniaeth.

**Sgiliau Cymhwysedd digidol**
Rydym yn llawn sylweddoli pwysigrwydd  sicrhau cymhwysedd digidol ein dysgwyr er mwyn eu paratoi ar gyfer bywyd a gwaith yn y dyfodol.

Rydym felly  yn rhoi sylw manwl i hyn wrth gynllunio profiadau dysgu ac wrth gynllunio ar gyfer cynnydd y dysgwyr.

**Gweithgareddau difyr symbylus**
Y peth pwysicaf i ni wrth gynllunio yw sicrhau bod y dysgwyr yn mwynhau ac yn cael hwyl wrth ddysgu.

Gweithiwn yn galed yma felly i sicrhau :
- bod y profiadau dysgu yn addas, diddorol a symbylus a bod llais y plentyn yn ganolog.
- bod ein haddysgu a'n perthynas waith gyda'n dysgwyr yn ennyn brwdfrydedd a mwynhad.
- bod yr amgylchedd ddysgu yn hwyliog

**Dysgu yn yr awyr agored**
Mae'r awyr agored yn amgylchedd delfrydol ar gyfer dysgu trwy brofiadau, am ei fod yn cynnig cyfleoedd unigryw i fod yn greadigol, i symud o gwmpas ac i gymryd risgiau. Rydym wedi datblygu ein hardal tu allan i wneud defnydd llawn o sbardunau arbennig yr awyr agored i ddatblygu amgylchedd dysgu'r dysgwyr.
Rydym yn credu'n gryf fod treulio amser yn yr awyr agored yn gwella pob agwedd ar ddatblygiad plant: lles cymdeithasol, corfforol, creadigol, diwylliannol a phersonol.

# Camau dysgu

Rydym yn cynllunio gan ddilyn camau penodol mewn llythrennedd a mathemateg. Mae hyn yn plethu'r dulliau cynllunio i sicrhau fod sgiliau wedi gwreiddio cyn symud ymlaen. Gweler fodel syml isod sydd yn rhoi enghraifft:

## Mathemateg

| |
|---|
| Dysgu sgil mathemateg penodol e.e. bondiau 10 |
| Ymarfer y sgil i sicrhau dealltwriaeth a llwyddiant. |
| Atgyfnerthu y sgil mewn gweithgaredd trawsgwricwlaidd o fewn ardaloedd dysgu y thema. |
| Cymhwyso y sgil mewn gweithgareddau datrys problemau a bywyd go iawn. |
| Ail-ymweld a'r sgiliau yn rheolaidd o fewn gwersi trawsgwricwlaidd/ themau amrywiol yn ystod y flwyddyn. |


## Llythrennedd – camau yn amrywio yn ddibynnol ar y ffurf ysgrifennu. Dyma enghraifft wrth fynd ati i ysgrifennu dyddiadur

| |
|---|
| Dysgu sgil penodol e.e. sut i ddefnyddio berfau cryno. |
| Ymarfer y sgil yn llafar drwy weithgareddau drama a chwarae rol i sicrhau dealltwriaeth a chywirdeb. |
| Ymarfer y sgil yn ddyddiol drwy weithgareddau darllen a deall ac ysgrifennu o fewn gwersi iaith. |
| Mynd ati i ysgrifennu dyddiadur gan ddilyn meini prawf llwyddiant sydd wedi eu gwahaniaethu. |
| Atgyfnerthu y sgil o fewn themau amrywiol yn ystod y flwyddyn. |

**Byddwn yn plethu'r sgiliau uchod ar draws y cwricwlwm.**

# Waliau dysgu





## Cynllunio thema pwmpen

Dyma syniadau plant blwyddyn dau ac thri

### Iaith, llythrennedd a chyfathrebu
Stori cawl pwmpen
Chwarae rol bod yn bwmpen
Monolog Pwmpen
Ysgrifennu riset Cawl Pwmpen ar

### Mathemateg a rhifedd
Coginio cawl pwmpen
Pwyso y cynhwysion
Mesur uchder y bwmpen a'i chylchedd
Rhagdybio pwysau'r bwmpen cyn ei phwyso
Dysgu am siapiau wrth greu gwyneb i'r bwmp
Archwilio beth yw pris pwmpen mewn siop

### Celfyddydau
Paentio pwmpen fel cymeriad gyda wyneb digri a choesau a breichiau a.y.y.b
Creu lluniau manwl o gylch bywyd Pwmpen

### Gwyddoniaeth a thechnoleg
Cylch bywyd pwmpen
Agor y bwmpen a dysgu beth sydd tu mewn
Chwarae rol bod yn bwmpen/Monolog
Morfo - defnyddio eu cymreiad i ddweud y fonolog
Coginio cawl pwmpen iachus dilyn riset
Creu postr Pwmpen ar werth yn ysgol morfa

### Iechyd a lles
Stori Cawl pwmpen - meddwl am deimladau yr hwyaden druan
Dysgu ei bod yn bwysig bwyta yn iach er mwyn cadw y corff yn iach.

### Dyniaethau
Dysgu am ddiolchgarwch
Diolch am y cynhaeaf
Rhoi - rhoi y bwmpen i drigolion Plas Madryn

## Cynllunio Thema Jac a'r Goeden

### Iaith, llythrennedd a chyfathrebu
Stori Jac a'r Goeden Ffa
Llun llonydd berf 'odd'
Ysgrifennu stori Jac a'r Goeden Ffa
Darllen a Deall Adar yr Ardd/O Dan y Dail
Disgribilo Y Siop Flodau

### Mathemateg a rhifedd
Garddio - Gwaith ymarferol mesur gwely plannu yna amcangyfrif sawl letisan i bob medr sgwar.
Mesur rhwng pob letisan
Mesur y swm cywir o ddwr
Mesur hyd a lled planhigion gwyllt
Dehongli Data 'marciau tali' hoff lysiau/graff bar
Creu rhifau gyda ffa y dyn dirgel
Pictogram blodau yr ardd
Dehongli tabl 'Gwylio adar yr ardd'
Deiagram Venn: Grym

### Celfyddydau
Creu posteri lliwgar ar gyfer gwerthu eu cynnyrch i rieni.
Creu hofrennydd yn y tywod ym Mhorthdinllaen
Paentio eu blodau drwy arddel gwaith Vincent Van

### Gwyddoniaeth a thechnoleg
Dysgu am fywyd natur sut i blannu a chadw planhigion yn fyw
Pellter cywir rhwng y planhigion fel nad ydynt yn mygu eu gilydd
Morfo - Chwarae rol bod yn letisan/Monolog dewch i fy mhrynu
Arbrofi gyda 'Sbarduno' Wyau yn ffrwydro ac yn bownsio
Creu hufen ia heb rewgell.
Grym: Arbrofi gyda ramp gwahanol uchder rhagdybio, beth sy'n gwneud prawf yn deg.?Un peth sydd yn newid beth sydd yn aros yr un fath.

### Iechyd a lles
Her 'Cerdded Cymru' 16 milltir
Cael eu noddi am gerdded a rhedeg 16 milltir a rhoi yr arian i elusen bwysig iawn ym Mhen Llyn.
Dysgu ei bod yn bwysig cadw'r corff yn heini drwy redeg a cherdded.

### Dyniaethau
Dysgu a diolch am y filltir sgwar hardd yr ydym yn byw ynddi
Rhoi - rhoi arian i ambiw-lans Cymru sy'n edrych ar ol trigolion Pen Llyn
Poster ar Google slide 'Parchwch ein Parc'.

Mae Cwricwlwm i Gymru yn rhoi rhyddid i ni gynllunio ein cynnwys ein hunain yn seiliedig ar:

- 6 Maes Dysgu a Phrofiad a'u Datganiadau o'r Hyn sy'n bwysig
- Datblygu Sgiliau Trawsgwricwlaidd
- 5 o Themâu Trawsbynciol

| **Y 6 Maes Dysgu a Phrofiad** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y Celfyddydau Mynegiannol** | **Iechyd a Lles** | **Dyniaethau** | **Mathemateg a Rhifedd** | **Ieithoedd, Llythrennedd & Chyfathrebu** | **Gwyddoniaeth a Thechnoleg** |
| *Y disgyblaethau sy'n cael eu datblygu yn yr ysgol hon:*<br><br>*Celf, Cerddoriaeth, Dawns, Drama , Ffilm a Chyfryngau Digidol* | *Y disgyblaethau sy'n cael eu datblygu yn yr ysgol hon:*<br><br>*Iechyd a datblygiad y corff*<br>*Iechyd meddwl*<br>*Lles emosiynol a chymdeithasol* | *Y disgyblaethau sy'n cael eu datblygu yn yr ysgol hon:*<br><br>*Daearyddiaeth, Hanes, Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg,*<br>*Hefyd elfennau o: Astudiaethau Busnes, Astudiaethau Cymdeithasol, Economeg, Athroniaeth* | *Yn cynnwys 5 hyfedr rhyngddibynol:*<br>*1.Dealltwriaeth gysyniadol*<br>*2.Cyfathrebu gan ddefnyddio symbolau*<br>*3.Rhuglder*<br>*4.Rhesymu rhesymegol*<br>*5.Cymhwysedd strategol* | *Y disgyblaethau sy'n cael eu datblygu yn yr ysgol hon:*<br><br>*Cymraeg, Saesneg, Llenyddiaeth* | *Y disgyblaethau sy'n cael eu datblygu yn yr ysgol hon:*<br><br>*Bioleg, Cemeg, Ffiseg, Gwyddoniaeth Cyfrifiadurol, Dylunio a Thechnoleg* |

| **Sgiliau Trawsgwricwlaidd**<br>*Byddwn yn cynllunio ar gyfer datblygu'r sgiliau trawsgwricwlaidd isod oddi fewn ac ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad gan wneud defnydd o'r fframweithiau diwygiedig cenedlaethol ar eu cyfer* | | |
|---|---|---|
| Llythrennedd | Rhifedd | Cymhwysedd Digidol |

| **Themâu Trawsbynciol**<br>*Byddwn yn cynnwys ac yn ymestyn y themâu isod ar draws y cwricwlwm* | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Addysg cydberthynas a rhywioldeb | Addysg Hawliau dynol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r plentyn | Amrywiaeth | Gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith | Cyd- destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol |


Bydd y **Datganiadau o'r Hyn Sy'n Bwysig** ar gyfer bob Maes yn sail i'n cynllunio ar gyfer cynnydd, dyfnder ac ehangder sgiliau a gwybodaeth ac ar gyfer cynnydd dysgwyr.

# Datganiadau Yr Hyn sy’n bwysig ar gyfer y 6 Maes Dysgu a Phrofiad

| Y Celfyddydau Mynegiannol | Iechyd a Lles | Dyniaethau | Mathemateg a Rhifedd | Ieithoedd, Llythrennedd & Chyfathrebu | Gwyddoniaeth a Thechnoleg |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae archwilio’r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae’n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol | Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes | Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a’i ddyfodol | Defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau | Mae ieithoedd yn ein cysylltu â’n gilydd | Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau |
| Mae ymateb a myfyrio, fel artist ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol | Mae’r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a’n lles emosiynol | Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a’u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd | Mae algebra yn defnyddio systemau symbolau i fynegi strwythur perthnasoedd mathemategol | Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o’n hamgylch | Mae meddylfryd dylunio a pheirianneg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol i ddiwallu anghenion a dymuniadau cymdeithas |
| Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg | Mae’r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill | Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi’i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol | Mae geometreg yn canolbwyntio ar berthnasoedd sy'n ymwneud â siâp, gofod a safle, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomena yn y byd ffisegol | Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu | Mae’r byd o’n cwmpas yn llawn pethau byw sy’n dibynnu ar ei gilydd i oroesi |
| | Mae’r ffordd rydym yn ymwneud â dylanwadau cymdeithasol yn siapio pwy ydyn ni, ac yn effeithio ar ein hiechyd a’n lles | Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw’n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl | Mae ystadegau yn cynrychioli data, mae tebygolrwydd yn modelu siawns, ac mae’r ddau yn cefnogi casgliadau a phenderfyniadau gwybodus | Mae llenyddiaeth yn tanio’r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd | Mae mater, a’r ffordd y mae’n ymddwyn, yn diffinio ein bydysawd ac yn ffurfio ein bywydau |
| | Mae cydberthnasau iach yn hanfodol ar gyfer ein lles | Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i’r afael â’r heriau a’r cyfleoedd sy’n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol | | | Mae grymoedd ac egni yn gosod sail i ddeall ein bydysawd<br>Mae cyfrifiaduraeth yn gosod sail i’n byd digidol |
| | | | | | Mae cyfrifiaduraeth yn sail i’n byd digidol |

## Asesu a Chynnydd

Rydym yn defnyddio'r **Disgrifiadau Dysgu** ar gyfer bob **Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig** ar gyfer asesu a chynllunio ar gyfer cynnydd dysgwyr. Mae'r rhain yn cyfateb **yn fras** i ddisgwyliadau ar gyfer oedrannau 5, 8, 11, 14 a 16 ac yn cynnig arweiniad ar sut y dylai dysgwyr ddangos cynnydd o fewn pob Datganiad. Ni ddefnyddir y rhain fel rhestr o flychau i'w ticio, ond yn hytrach fel arfau i'w hystyried wrth gynllunio ar gyfer cynnydd ein dysgwyr.




Yn ychwanegol at hyn, **mae egwyddorion cynnydd** sy'n sail i'n cynllunio ar gyfer cynnydd dysgwyr ar draws

| **Egwyddorion Cynnydd** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ehangder a dyfnder gwybodaeth cynyddol | Dyfnhau'r ddealltwriaeth o'r syniadau a'r disgyblaethau yn y Meysydd | Mireinio a soffistigeiddrwydd cynyddol wrth ddefnyddio a chymhwyso sgiliau | Creu cysylltiadau a throsglwyddo dysgu i gyd-destunau | Cynyddu effeithiolrwydd |

Mae Cwricwlwm i Gymru yn rhoi'r cyfle i ni sicrhau mai cynnydd dysgwyr yw prif bwrpas Asesu ac nid ymarfer atebolrwydd. I'r perwyl hyn, rydym ni yn Ysgol Morfa Nefyn yn rhoi bri ar ddatblygu darlun cyflawn o ddatblygiad pob dysgwr, yn cynnwys eu lles, eu parodrwydd ac awydd i ddysgu yn ogystal â datblygiad eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Rhown bwyslais ar bwysigrwydd sicrhau cyd-ddealltwriaeth o gynnydd ar draws ymarferwyr yr ysgol a'r clwstwr ac ar drafodaethau rheolaidd gyda rheini a gofalwyr i drafod cynnydd eu plant.

Bydd yr ysgol yn cyflawni **Dibenion Asesu 'r Cwricwlwm** fel a ganlyn:

**1.Cefnogi dysgwyr unigol yn barhaus o ddydd i ddydd**
Mae asesu ffurfiannol o ansawdd cyson uchel ar lawr dosbarth o ddydd i ddydd yn rhoi darlun clir o gyrhaeddiad a chamau nesaf i ddysgwyr ac ymarferwyr.

**2. Nodi, crisialu a myfyrio ar gynnydd dysgwyr unigol dros amser** a **3. Deall cynnydd grwpiau er mwyn myfyrio ar arferion**
Trafodir cynnydd ac anghenion dysgwyr a grwpiau penodol o ddysgwyr yn rheolaidd drwy ddeialog broffesiynol er mwyn cynllunio ar gyfer cynnydd pellach. Bydd trafodaethau o'r fath hefyd yn hwyluso ac yn hyrwyddo unrhyw drosglwyddo a phontio rhwng dosbarthiadau ac ysgolion.
Gwneir defnydd ffurfiannol o brofion cenedlaethol a phrofion mewnol yn ôl y galw i dracio cynnydd.
Cynhelir trafodaethau rheolaidd gyda'r dysgwyr a'u rhieni/gofalwyr i drafod cynnydd gan gynnwys asiantaethau allanol pan fo angen.

## Asesu a Chynnydd

| Dull | Beth fyddwn yn ei wneud? |
|---|---|
| Asesiad ar fynediad | • Rydym yn arsylwi ac yn cofnodi cyrrhaeddiad bob dysgwr ar eu mynediad i'r ysgol yn Meithrin a'r Derbyn neu o ysgol drosglwyddo. Mae'r asesiadau cychwynnol hyn yn cael eu defnyddio i dracio cynnydd a datblygiad. |
| Asesu parhau o ddydd i ddydd (Asesu ar Gyfer Dysgu) | • Defnyddio cymeriadau Dewi dysgu a Lleucu Llwyddiant i osod meini prawf llwyddiant i ddarnau o waith.<br>• Rhoi adborth i ddisgyblion yn seiliedig ar y meini prawf (llafar ac ysgrifenedig).<br>• Mae trafodaeth am waith yn ganolbwynt i'r asesu fel bod y plant yn ymwybodol o'u llwyddiant a'u targedau. Mae ystol Meddyfryd o dwf yn weledol ymhob llyfr gwaith fel y gellir cyfeirio atynt yn hawdd mewn trafodaeth adborth.<br>• Amser i'r dysgwyr ymateb i adborth drwy sgwrs, cyfle i ymarfer camgymeriad neu ymarfer sillafu.<br>• Amser i wella a chywiro Gwaith. |
| Cefnogi / cynnydd tracio disgyblion | • Asesiadau mewnol mewn darllen a mathemateg ddwywaith y flwyddyn i adnabod cynnydd.<br>• Asesiadau personol mewn llythrennedd a rhifedd yn flynyddol.<br>• Cynnydd bob plentyn yn cael ei dracio drwy system dracio.<br>• Ffeil tracio unigol yn cael ei gadw ar gyfer dysgwyr ADY, gan wneud defnydd o brofion llythrennedd a rhifedd addas.<br>• Her sillafu o'r geiriau aml-ddefnydd yn tracio sillafu dysgwyr yn wythnosol. |
| Adrodd i rieni | • Noson rieni yn cael ei gynnal ddwywaith y flwyddyn (Tymor 1 a thymor 2) i drafod cyrrhaeddiad a thargedau. Targedau penodol yn cael eu rhannu gyda'r rhieni.<br>• Rhieni yn derbyn adroddiad blynyddol yn nhymor 3.<br>• Cyfle i weld llyfrau gwaith y disgyblion ddwy waith y flwyddyn yn y nosweithiau rhieni. Enghreifftiau o waith y disgyblion yn cael eu rhannu yn gyson ar Seesa. |
| Trosglwyddo | • Disgyblion yr ysgol yn trosglwyddo i Ysgol Nefyn neu Edern.<br>• Cynhelir cyfarfod proffesiynol rhwng staff y ddwy ysgol i rannu a throsglwyddo gwybodaeth.<br>• Mae cyswllt dda rhwng yr ysgol a'r cylch meithrin. Mae amserlen blynyddol yn rhoi cyfle i'r plant ymweld a'r ysgol yn rheolaidd o fewn y flwyddyn. |